

ARCHIFAU MORGANNWG

AMODAU ADNEUO

Mae Archifdy Morgannwg yn derbyn dogfennau i'w cadw, yn unol â'i Bolisi Casglu, dan yr amgylchiadau isod:

- a) dogfennau sydd wedi'u rhoi yn rhodd, neu sydd wedi'u prynu, lle mae Cydbwyllgor Archifau Morgannwg yn berchen arnyn nhw ar ran ei awdurdodau cyfansoddol;
- b) dogfennau sydd wedi'u trosglwyddo gan un o awdurdodau cyfansoddol Cydbwyllgor Archifau Morgannwg,
- c) dogfennau sydd wedi'u hadneuo am gyfnod amhendant, lle mae'r adneuwyr yn dal yn berchen arnynt.

CYFRIFOLDEBAU'R ARCHIFAU:

1. Byddwn yn cadw'r dogfennau o dan yr un amodau cadw a diogelu â chofnodion eraill a gedwir gan Archifau Morgannwg.
2. Byddwn yn trefnu'r dogfennau a'u rhestru yn unol â'n harferion cyfredol; byddwn yn paratoi rhestri, mynegeion a chymhorthion eraill yn unol â'r rhaglenni mae'r Archifau wedi'u pennu. Byddwn yn rhoi copi o'r rhestr i'r adneuwyr.
3. Dim ond yn yr ystafelloedd chwilio, dan oruchwyliaeth staff yr Archifau, y bydd y cyhoedd yn gallu gweld a defnyddio'r dogfennau.
4. Ni fyddwn yn gadael i'r cyhoedd drin a thrafod dogfennau sy'n rhy fregus i'r diben hwnnw.
5. Ni fyddwn yn rhoi copïau o ddogfennau unigol i ymwelwyr oni bai bod hynny'n gyson â diogelwch y dogfennau ac amodau'r gyfraith ynghylch hawlfreintiau
6. Byddwn yn gofyn am ganiatâd yr adneuwyr i gyhoeddi dogfen neu ran sylweddol ohoni.
7. Byddwn yn rhoi dogfennau ar fenthyg i sefydliad arall i'w harddangos ar yr amod bod yr adneuwyr yn caniatáu hynny a bod cyfleusterau'r sefydliad hwnnw yn cydymffurfio â gofynion BS 5454:2000 a'r amodau sydd wedi'u pennu ym Mholisi Benthg ar gyfer Arddangosfeydd yr Archifau.
8. Byddwn yn rhoi unrhyw ddogfennau nad ydym am eu cadw'n barhaol yn ôl i'r adneuwyr, neu'n eu dinistrio gyda chaniatâd yr adneuwyr.

9. Ni fyddwn yn rhoi dogfennau i'w defnyddio mewn achos llys heb ganiatâd yr adneuwr, oni bai bod y llys wedi cyhoeddi gorchymyn sy'n mynnu hynny.

10. Ni fyddwn yn rhoi manylion dinasyddion unigol sy'n adnewyr i drydydd parti heb eu caniatâd, ond efallai y byddwn yn cadw'r manylion yn yr Archifau yn unol ag amodau Deddf Diogelu Data 1998

11. Byddwn yn rhoi derbynneb sy'n cynnwys disgrifiad o'r dogfennau sydd wedi'u hadneuo, yn ogystal â manylion eu cadw, o fewn 10 diwrnod gwaith i'w derbyn.

12. Byddwn yn sicrhau bod dogfennau polisi perthnasol Archifau Morgannwg ar gael i'r adnewyr yn ôl y gofyn.

CYFRIFOLDEBAU'R ADNEUWR:

1. Mae gan yr adneuwr yr hawl i roi'r dogfennau i ni, fel perchennog neu asiant.

2. Rhaid rhoi gwybod i Archifau Morgannwg am newidiadau i gyfeiriad neu fanylion eraill sy'n effeithio ar berchnogaeth y cofnodion.

3. Os hoffai'r adneuwr gymryd dogfennau yn ôl am gyfnod penodol, rhaid rhoi rhybudd rhesymol am hynny.

4. Os hoffai'r adneuwr gymryd dogfennau yn ôl am byth, mae gennym hawl i godi tâl er mwyn gwneud iawn am gostau storio, rhestru a diogelu.

5. Cyfrifoldeb yr adneuwr yw gofalu bod y dogfennau wedi'u hyswiro, ac eithrio yn achos sefydliad arall sy'n eu harddangos.

6. At ddibenion Deddf Diogelu Data 1998, byddwn yn ystyried mai'r adneuwr yw Rheolwr Data unrhyw wybodaeth yn y dogfennau y gallai amodau'r ddeddf fod yn berthnasol iddi.

7. Bydd yr adneuwr yn caniatáu:

- i unrhyw ddogfennau a gedwir fod ar gael i chwilwyr yn amodol ar gyfyngiadau mynediad statudol neu gyfyngiadau mynediad y cytunir arnynt ag Archifydd Morgannwg.
- marcio dogfennau â chyfeirnod, at ddibenion diogelwch ac adnabod.
- cadw a diogelu'r dogfennau yn unol â'r rhaglenni a bennir gan yr Archifau.
- i ddogfennau fod ar gael ar ffurf copïau, a wneir drwy unrhyw ddull addas, fel copïau sy'n eiddo i Archifau Morgannwg.
- cyhoeddi darnau byr o'r dogfennau naill ai fel trawsgrifiadau neu ar ffurf ffacs.

- i Archifau Morgannwg roi cyhoeddusrwydd i'w wasanaethau a hyrwyddo ei gasgliadau, drwy atgynhyrchu dogfennau sydd yn ei feddiant mewn unrhyw gyfrwng, cyhoeddi cymhorthion i ddod o hyd i ddogfennau drwy unrhyw gyfrwng sydd ar gael, a sicrhau eu bod ar gael mewn lleoliadau eraill y tu allan i'r Archifau.
- trosglwyddo data mewn cofnodion electronig i ffurfiau eraill.

Os hoffai'r adnewwr newid yr amodau, rhaid cytuno ar hynny gyda staff Archifau Morgannwg wrth gyflwyno'r dogfennau.